WG35.5.152

# CAN ALARUS

O GOFFADWRIAETH

AM

# MR. E. PRICE.

O

## GRYG-Y-BWBACH,

YR HWN A FU FARW YR 20ED O EBRILL, 1818,

A phregethodd Mr. D. Williams, Llanwrtyd, a Mr. J. Morgans, Pentref-ty-gwyn, yn ei angladd, oddiwrth Luc xx. 36, a Dat. xiv. 13.

GAN W. WILLIAMS, RHANDIR-ISA'.

Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd. Dat. xiv. 13.

Dewch drigolion, dewch y'mla'n
I wel'd y gan sy' geni,
A chwi gewch ddiolch llawn-wych llon,
Os dewch o'r bron i brynu.

LLANTEILO-FAWR:
ARGRAFFWYD GAN J. DAVIES,
Heol Rhôs-y-maen.

[*Pris Ceiniog a Dimai.*]

LW5423
X203313581

## *CAN O GOFFADWRIAETH, &c.*

1 O'R fath alar sydd yn oleu
Wedi ymddal ar fy meddyliau,
O waith angeu llydan llidiog,
Gorfod 'madael â nghymmydog;
Hoff fu genyf finnau ganwaith
I gael bod yn ei gwmp'niaeth,
Ei siriol wedd llawn o hedd,
Gorfoledd gwirfelus,
Llon ei 'madrodd llawn a medrus,
Oedd yn siarad yn gysurus.
2 Clywais newydd, arwydd eirad,
Farw'r gwr oedd fawr ei gariad,
Pa'm y collwyd dyn mor galled?
Ni chawn er wylo yma ei weled;
Dyn o ddeunydd, dyn o ddoniau,
Mawr oedd hyd ei gyrhaeddiadau;
'R efengyl lon pregethodd hon
Yn gysson dda gysur,
Trwy haeddiant Iesu y cymhwysir
Iechydwriaeth i'r pechadur.
3 Wele *Evan Price* yn brysur
Wedi ddala yn ei ddolur,
Yn y dwymyn gaeth, lym, boethlyd,
Yno'n ochain eisiau iechyd;
Wele'i dylwyth a'i holl deulu
Yno'n wylo wrth ei wely;
Y plant yn fân yn d'od y'mla'n
Yn gyfan mewn gofid,
A phriod fwyn ei fynwes hefyd,
Oll mewn odfa gaeth o adfyd.
4 Er cael meddyg a chael moddion,
Dim rhag angeu i blant dynion,

,Nol bod *Evan* hir yn afiach,
Etto wela' i'n myn'd yn waelach,
Mawr y boen oedd arno beunydd,
Wedi gostwng dan ei gystudd,
Angeu'n drwm seila swm
Y cwlwm heb galu,
Gan angeu dewr yn cael ei dori,
Y corff a'r enaid yn ymranu.

5 Tri gweinidog tra gwyn odiaeth
Oedd yno ar ddydd ei gladdedigaeth,
Mr. Jenkins * mewn taer weddi,
Mr. Williams † yn pregethu,
Rhaid codi'r corff heb bwyllo bellach,
(A myned bawb o *Gryg-y-bwbach)*,
Ar geffyl pren yn lân dan len,
Ac ochain bob ochr;
Pawb a'i carai, o bob goror,
Oedd mewn alar wrth yr elor.

6 Yno'n ufudd aent âg Evan
I dŷ cyfarfod *Cefnerthan*,
Mr. Jones ‡ a ddwys weddiodd,
Mr. Morgans § a bregethodd;
Trwm yr olwg, tra-mawr alar,
Gwel'd y corff yn myn'd rhwng pedwar,
I'w ro'i'n y pridd, ac yno bydd,
Caiff lonydd heb flino,
Nes del yr angel, nid â'n ango',
Yn dda heiny' i'w ddihuno.

7 'Nawr mae Evan maes o afael
Wedi osod ddigon isel,
Dan law angeu glas yn gorwedd
Yn ei wely, hynod waeledd!

---

* Brychgoed. † Llanwrtyd. ‡ Penlan.
§ Gweinidog y lle.

'Nawr mae'r gliniau wedi glynu,
Llygaid yn eu pyllau'n pallu,
Y tafod fu yn hynod hy'
Yn canu a chwyno,
Mawr a welir yma'n wylo,
Ac yn brudd o waith ei briddo.
8 Mae rhyw gleisiau mewn eglwysi,
Ar wŷr calla' waith ei golli,
'Roedd fel seren hynod siriol,
Union reswm, anian rasol,
Llona ddyn yn llawn o ddoniau,
Oedd yn addfed ei gynheddfau,
I ddweud yn ddwys gydâ phwys,
Yn cynnwys amcanion,
Am ddëall da i ynnill dynion
I dd'od i gofio Iesu cyfion.
9 Fe ga'dd dalentau yn ei ie'nctid,
Daeth yn foreu i'w harferyd,
Doniau canu, dyna'i cwnodd
E' mor siriol ryw amseroedd,
Ond pan hollol dynwyd allan
O dan leni dynol anian,
Trwy nerthol dân yr Yspryd Glân,
Daeth Evan doeth ufudd,
Mewn modd helaeth iawn a hylwydd,
Ac yn fawrglod yn nhŷ'r Arglwydd.
10 Dyn dwys, cadarn, a dysgedig,
'Doedd fawr am ganu allai'i gynnyg,
Canu â'r yspryd llonfryd llawen,
Canu â'r dëall ddiball ddyben,
Dyn o egwyddor, doniau gweddi,
Doniau maith at waith pregethu,
Doniau, grâs, pereidd flâs,
Yn addas ro'ed iddo,

A Duw i ninnau a'u cyfrano,
Mewn modd doethwych a'n bendithio.
11 Fe fu'n ddiwyd ar y ddaear,
A'i gorff yn llesg 'roedd yn 'wyllysgar,
Bu saith flynedd yn y winllan,
Yn y *Pentre'* a *Chefnerthan*,
Bu dair blynedd heb ddim blino,
A llef oreu yn llafurio,
Pregethu Crist, mae llawer tyst
Yn athrist am athro,
Mae'r eglwysi yn cyd-leisio,
Oll mewn galar trwm yn wylo.
12 Ffarwel *Pentre'* a *Chefnerthan*,
Ffarwel *Merthyr weithiau* weithian,
Darfu teithio *Cwmglyntawe*,
Darfu canfod pobl *Gwynfe;*
Ffarwel *Brychgoed* hynod hyny,
Ffarwel *Bethle'm* waered obry,
Ffarwel pob man, doed Duw i'ch rhan,
Yn gyfan mewn gafael;
Ffarwel *Tabor*, *Sardis* dawel
Ffarwel byth, a ffarwel *Bethel.*
13 Y mae'r weddw, hyn ni wyddom,
Yn dala cur a dolur calon,
Colli priod, gŵr hawddgara'
Oedd trwy ammod tra fu yma,
Mae plant anwyl yn amddifaid,
Duw f'o'n gwenu ar y gweiniaid,
A roddo ras, a nefol flas,
Ac addas rinweddau,
Tad amddifaid, mae fe'n adde',
Duw sydd eirwir, Duw sydd oreu.
14 Mae'n dro hynod i'w rieni,
Pwy mor wan yw rhanau rheiny,

Mae chwiorydd yn galaru
Heb allu'n dawel hollol dewi,
Ond cym'rwch gysur, rai agosa',
Er i'ch golli dyn o'r calla,
Mae mewn gwledd, drag'wyddol hedd,
Wrth orsedd, heb arswyd,
Mae yno'n haf trag'wyddol hefyd,
Maes o afael tonau o ofid.

15 Pwy all ganfod ran o ganfed
Ddaeth i mewn i ran yr enaid,
Ni chlywodd clust, ni welodd llygad.
Ni fedr gŵr, ddweud faint y cariad,
Ni ddaeth i galon dyn i goelio,*
Y pethau hynod welir yno,
Yn nghwm'ni'r Oen, heb friw na phoen,
Rho'i'r goron, a'i garu,
I ryw oesoedd ar ben Iesu,
Gyda miloedd yn cydfoli.

16 Beth yw cant yn canu psalmau?
Beth yw mil o lan delynau?
Beth yw *harpsichord* ac *organ*
At y pethau glywodd Evan?
Pedwar *band* ac again diogel †
Oedd gan Dafydd yn y deml,
Beth yw hyn at Seion fryn?
Pob telyn mwy dilys,
Yn canu'n uchel ac un iachus,
A chydfoli Duw yn felus.

17 Colled mawr i gofio gafodd
Ei lan deulu a'r ardaloedd,

---

* 1 Cor. ii. 9. † 1 Cron. xxv, 31. Dat. iv. 4, 10.

'Roedd E'n fwyn addas yn feunyndiol
I addysgu pawb o'r ysgol,
Dysgu pynciau buddiol byddai,
Gwir safadwy, ar dafodau
Ei rhanu bu rhwng llawer llu,
'Roedd hyny yn rhinweddol,
Sef geiriau grasol ysgrythyrol,
Maes o'r Bibl rhwng y bobl,
18 Tro diweddaf clywais Evan
Oedd yn mhulpid *Cefnerthan*,
'Roedd yn holi'r plant yn hwylus,
Hwythau'n adrodd pwnc yn fedrus,
Ac yn *Mhentwyn* yn y diwedydd,
Melus clywed ei leferydd,
'Doedd dyn ar don 'mhob lle fwy llon,
Yn addfwyn bron addfed,
Fe ddaeth angeu, y gelyn caled,
I'w gyfnewid, yn ddiniwed.
19 Deg o gantoedd 'wedaf gynta',
Pwy all ammeu'r cyfrif yma?
A hanner mil, nid cul, os coeliwch,
Y lluoedd segur lliosogwch,
Deuddeg ugain diddig agos,
A dweud y gwir heb hir ymaros,
A chwech deg o gyfrif teg,
I'w faneg yn fuan,
Dau o wythau, dyna weithian,
A dau adre', dyna ei oedran.
20 Rho'es oedran Crist heb flino'n flaena',
Ac etto'n ail cewch yntau'n ola',
Pump o seithau a was'naetha,
A thri yn rhwydd at hyn fe'u rhodda',
Dyna ei oedran wedi ei adrodd,
'Nol yr hanes pan yr hunodd;

Ca's angeu loes y'mlodau'i oes,
Dim achos mwy i ochain,
'R enaid 'hedodd fel ar aden,
Fynu'n hwylus heibio'r haulwen.
21 Darfod cwyno, dechreu canu
Mae Evan lon yn ngwlad goleuni,
Dyma'i destun, gwir fe dystia,
' Y Gŵr fu farw ar Galfaria,'
Pedair mil a saith ugein-mil *
Fydd yno'n canu byth yn gynnil,
Angelion glan, cyduno wnan',
Hwy fyddan' yn foddol,
I ganmol Iesu cwmmwynasol,
Am ei gariad tra rhagorol.
22 Rhaid i finnau roddo fynudd,
Rhag im' flino'r llon ddarllenydd,
A dwys ufudd ro'i deisyfiad
Am fendith Duw ar yr amgylchiad;
Duw, 'rhwn a fedr, a gyfodo
Yn ddiattal ryw rai etto,
I draethu'n glir efengyl bur,
Fel gwelir rhai yn gwilio,
Ac yn mhod lle y byddo'n llwyddo,
Rho'f fi Amen, a Duw a'i myno.

* Dat. xiv. 1.

DIWEDD.

---

Os cynigir argaffu y gân hon sy' geni,
Bydd sicr o'i gospi a'i feuddu'n o faith,
Heb genad ufudd lân yr awdwr ei hunan,
Yn fuan gaiff gyfran o gyfraith.

*Llanteilo-fawr: Argraffwyd gan J. Davies.*